Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 333

**Amseru: Unigol**

**Teitl:** Rhodd tuag at Loches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Ffurfiwyd Lloches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid ym mis Medi 2015.

Sefydliad gwirfoddol yw Lloches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid sy'n croesawu pobl sy'n ceisio lloches ac yn codi arian i'w helpu.

Fel grŵp, mae cefnogwyr Lloches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid o bob ffydd, ac nid ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw ddaliadau gwleidyddol: yr hyn sy'n eu huno yw eu dynoliaeth gyffredin a'u tosturi tuag at eraill. Un o'u hamcanion yw darparu seibiant a noddfa tymor byr i ffoaduriaid yng nghefn gwlad heddychlon Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r cyffiniau.

Mae Lloches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid yn cynnal Diwrnod Croeso ddydd Sul 15 Medi ac yn codi arian ar gyfer y digwyddiad gydag elfennau allweddol yn sicrhau digwyddiad llwyddiannus.

Mae'r Diwrnod Croeso'n cynnwys annog ffoaduriaid newydd a phresennol a chymunedau lleol i gwrdd a chymryd rhan mewn digwyddiadau amlddiwylliannol drwy gydol y dydd, gan greu man diogel a chroesawgar i bawb.

**Argymhelliad:**
Rhoi £250 i gefnogi Diwrnod Croeso Lloches y Gelli Gandryll, Aberhonddu a Thalgarth ar gyfer Ffoaduriaid ar 15 Medi 2024.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:**  **Dyddiad: 16/05/24**